PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# POLISI GWRTHLWGRWOBRWYO

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | 29 Mawrth, 2012 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 2. | 5 Hydref 2015 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | 1 Rhagfyr 2015 |
| 3. | 3 Mehefin 2019 | Adolygwyd ac ail-gymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | |
| 4. | 22 Medi 2022 | Adolygwyd ac ail-gymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | |
| 5. | 4 Awst 2023 | Diwygiadau i ddiweddaru rolau a chyfrifoldebau | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 22 Medi 2022 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## 1. Diben

Mae Prifysgol Bangor yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llwgrwobrwyo 2010 (y Ddeddf). Mae'r Polisi hwn yn nodi'r camau y bydd y Brifysgol yn eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Ddeddf, er mwyn osgoi unrhyw atebolrwydd troseddol neu sifil sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol a/neu aelodau unigol o staff, a chynnal delwedd broffesiynol ac enw da'r Brifysgol.

## 2. Rhoi'r Polisi hwn ar waith

Bydd yr Egwyddorion yn y Polisi hwn yn berthnasol i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, yn cynnwys unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd â busnes neu ymwneud â'r Brifysgol.

Yn benodol, bydd y Polisi hwn yn berthnasol i bob aelod staff (yn cynnwys staff dros dro ac achlysurol), cyfarwyddwyr cwmnïau'r Brifysgol, ymgynghorwyr, staff er anrhydedd, Aelodau'r Cyngor, asiantau, arholwyr allanol a darparwyr gwasanaethau ("Unigolion").

Bydd y Grŵp Tasg Cydymffurfio yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Polisi hwn drwy'r Dirprwy Ysgrifennydd, a fydd, at ddibenion y Polisi hwn, yn cymryd y teitl "Swyddog Gwrth-lygredd". Gellir cysylltu â'r Swyddog Gwrth-lygredd yn hollol gyfrinachol i drafod pryderon a rhoi gwybod am achosion a amheuir.

## 3. Polisïau Eraill

Nid yw'r Polisi hwn yn gynhwysfawr a dylid ei ddarllen ar y cyd â strategaethau, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau eraill y Brifysgol sy'n bod eisoes (fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd) yn cynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu i'r rhain:-

- Cynllun Ymateb i Dwyll;
- Polisi ar Ddatganiadau o Fudd;
- Strategaeth Caffael a pholisïau ategol;
- Rheoliadau Ariannol;
- Gweithdrefnau a Pholisi Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban);
- Polisi Moeseg Ymchwil;
- Polisi Defnydd Derbyniol (yn cynnwys defnyddio e-bost a'r Rhyngrwyd, ond heb ei gyfyngu i hynny);
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Diogelu Data.

## 4. Troseddau

Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn gwneud y canlynol yn drosedd:-

(a) cynnig, addo neu roi llwgrwobr gyda'r bwriad o gymell neu wobrwyo cyflawni swyddogaeth neu weithgarwch perthnasol mewn modd amhriodol (llwgrwobrwyo gweithredol);
(b) gofyn am lwgrwobr, cytuno i dderbyn llwgrwobr neu dderbyn llwgrwobr (llwgrwobrwyo goddefol);

(c) llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor er mwyn cael neu gadw busnes neu fantais wrth gynnal busnes.

(d) Ceir trosedd gorfforaethol ychwanegol wrth fethu ag atal llwgrwobrwyo.

Mae'r cosbau dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 yn golygu atebolrwydd troseddol yn bennaf, i'r Brifysgol ac i Unigolion yn bersonol, ond gallent hefyd gynnwys gweithredu sifil ar gyfer adfer elw a gafwyd drwy drosedd. Ceir mwy o fanylion yn **Atodiad 1.**

## 5. Rhwymedigaethau

Cyfrifoldeb pob Unigolyn yw atal, canfod a rhoi gwybod am unrhyw lwgrwobrwyo neu lwgrwobrwyo a amheuir. Ni ellir dirprwyo nac anwybyddu'r cyfrifoldeb hwn.

Camau ymarferol:-

(a) Dylid cynnig a derbyn anrhegion, rhoddion, nawdd a lletygarwch corfforaethol gan lynu'n hollol gaeth at *Bolisi Rhoddion a Lletygarwch* y Brifysgol ac mewn unrhyw achos, bydd yn gymesur ac nid yn helaeth.

(b) Dylid rheoli gwrthdaro buddiannau yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar *Ddatgan Budd.* Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor, ynghyd â holl staff uwch y Brifysgol gan gynnwys aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion, a Chyfarwyddwyr Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol ddatgan unrhyw fuddiannau allanol yn flynyddol, ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Rhaid i'r holl aelodau staff eraill sy'n ymwybodol o wrthdaro buddiannau posib, yn y lle cyntaf, godi'r mater yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd gyda Phennaeth yr Ysgol (os ydynt yn aelodau staff adran academaidd) a ddylai roi gwybod hefyd i Ddeon y Coleg, gyda Deon y Coleg (os ydynt yn aelodau staff mewn Coleg) neu gyda Chyfarwyddwr y gwasanaeth proffesiynol perthnasol.

(c) Dylid ystyried yr holl faterion perthnasol sy'n gymesur ac sy'n ymdrin â'r risgiau'n briodol o drafod gyda thrydydd partïon. Dylid cymryd gofal arbennig lle bo ymchwil neu unrhyw gontract neu drefniant arfaethedig yn cynnwys gwledydd neu fathau o ddiwydiant lle mae llygredd yn ymddangos yn uchel (gweler **Atodiad 2**).

(d) Mae rhoi gwybod am achosion a amheuir yn hanfodol, a dylid gwneud hyn mor fuan ag sy'n bosibl. Dylid cadw pob gohebiaeth a / neu nodiadau cyfoes perthnasol sy'n achosi pryderon. Cysylltwch â'r Swyddog Gwrth-lygredd, neu'r Swyddog Dynodedig dan *Weithdrefnau a Pholisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)*.

(e) Bydd y risgiau o dorri'r gyfraith yn cael eu lleihau os dilynir canllawiau Caffael a Rheoliadau Ariannol y Brifysgol.

(f) Cynnwys cymalau ac ymrwymiadau priodol mewn contractau a chytundebau, yn arbennig wrth ymdrin â gwledydd risg uchel neu mewn sectorau risg uchel. Mae cymal gwrth-lwgrwobrwyo safonol y Brifysgol wedi'i gynnwys fel **Atodiad 3** o'r Polisi hwn.

(g) Dylid glynu'n gaeth at ofynion y *Polisi Rhoddion a Lletygarwch*.

Sylwch fod taliadau hwyluso'n [1]anghyfreithlon ym Mhrydain. Mae angen cymryd gofal wrth gynnal trefniadau busnes gyda sefydliadau yn yr Unol Daleithiau gan nad yw taliadau hwyluso'n anghyfreithlon yn yr Unol Daleithiau.

## 6. Hyfforddiant

Mae'n hanfodol bod pob unigolyn yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y Polisi hwn. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gan yr holl staff y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, gan gynnwys cynnig hyfforddiant fel rhan o'r hyfforddiant caffael arferol a gyflawnir gan y Swyddfa Gyllid, fodd bynnag ni ddylai hyn atal unigolion rhag ceisio arweiniad pellach os ydynt yn teimlo bod angen gwneud hynny. Os ydych chi'n ansicr sut mae hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes arnoch angen rhagor o hyfforddiant ar unrhyw elfen, cysylltwch â'r Swyddog Gwrth-lygredd am fwy o eglurhad a gwybodaeth.

## 7. Cydymffurfio

Wrth ystyried y sancsiynau posibl yn erbyn y Brifysgol (a difrod i'w henw da), os torrir y Polisi hwn, ymdrinnir â hynny fel mater difrifol a gall arwain at gymryd camau'n unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol.

Er enghraifft, dan amgylchiadau penodol, gall torri'r Polisi hwn arwain at atal cyfrifon e-bost neu'r cyfryw gamau eraill y mae'r Brifysgol yn eu pennu'n briodol. Pan fo'r Brifysgol o'r farn bod ymddygiad unigolyn yn drosedd, bydd yn ofynnol i'r Brifysgol gyfeirio'r mater at yr awdurdod perthnasol, fel yr Heddlu a/neu'r Swyddfa Twyll Difrifol.

## 8. Monitro ac Adrodd

Bydd y Brifysgol yn archwilio y cydymffurfir â'r Polisi hwn yn rheolaidd, ac yn ymchwilio i bob honiad o droseddau. Mae'n bosibl y bydd ymchwiliad o'r fath yn gofyn am fonitro neu adolygu cyfrifon e-bost personol, fodd bynnag, lle mae Ysgrifennydd y Brifysgol o'r farn bod hyn yn angenrheidiol, gwneir hyn o dan y gweithdrefnau a nodir ym *Mholisi'r Brifysgol ar Fynediad Sefydliadol i Gyfrifon TG ac Offer TG Staff a Myfyrwyr*.

## 9. Y Drefn os Amheuir Llygredd

### (a) Ymchwiliad

(i) Bydd y Swyddog Gwrth-lygredd yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol ac, os oes angen, bydd yn galw'r Panel Ymchwilio i Lygredd (y "Panel") ynghyd i benderfynu ar weithredu ymhellach.

(ii) Bydd y Panel yn cynnwys y canlynol:-

- Prif Swyddog Gweithredu/ Ysgrifennydd Brifysgol (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwr Cyllid

---

[1] Mae Taliadau Hwyluso yn daliadau a delir i swyddog cyhoeddus i hwyluso gweithredu arferol y llywodraeth (fel prosesu papurau, rhoi trwyddedau) ac yn aml yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth lwgrwobrwyo gan ei fod yn ymarfer derbyniol o dan awdurdodaethau amrywiol.

- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Dirprwy Gyfarwyddwr (Caffael a Thaliadau)
- Y Swyddog Gwrth-lygredd

Pan na fydd yr un o'r rhain ar gael, gellir gwahodd uwch swyddog arall y Brifysgol i ymuno â'r Panel.

(iii) Hysbysir yr Is-ganghellor a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

(iv) Rhoddir gwybod i yswirwyr y Brifysgol.

(v) Lle bo angen, hysbysir yr Heddlu.

(vi) Bydd y Panel yn ceisio cyngor cyfreithiol lle ystyrir bod angen gwneud hyn.

**(b) Atal Colled Bellach**

(i) Pan fo'r ymchwiliad cychwynnol yn rhoi sail resymol dros amau bod aelod neu aelodau staff wedi cyflawni gweithredoedd o lygru neu lwgrwobrwyo, bydd y Panel yn penderfynu sut i atal rhagor o golled neu atebolrwydd. Gall hyn olygu gwahardd, gyda neu heb dâl, y rhai dan amheuaeth.

(ii) Efallai y bydd angen cynllunio amseru'r gwaharddiad i atal y rhai a amheuir rhag dinistrio neu gael gwared ar dystiolaeth a fydd ei hangen o bosibl i gefnogi camau disgyblu neu droseddol.

(iii) Yn yr amgylchiadau hyn, dylid mynd at y rhai a ddrwgdybir yn ddirybudd. Dylid eu goruchwylio drwy'r amser cyn gadael eiddo'r Brifysgol.

(iv) Dylid caniatáu iddynt nôl eiddo personol dan oruchwyliaeth, ond ni ddylent allu symud unrhyw beth sy'n eiddo i'r Brifysgol. Dylid dychwelyd unrhyw drwyddedau diogelwch ac allweddi i eiddo, swyddfeydd a dodrefn, ynghyd ag unrhyw eiddo yn eu meddiant a all fod oddi ar y safle.

(v) Dylid gofyn i'r Rheolwr Diogelwch ac Ymateb, os oes angen, gynghori ar y ffordd orau i atal mynediad i'r Brifysgol, tra bo'r rhai a ddrwgdybir yn parhau wedi'u gwahardd (er enghraifft drwy newid cloeon a rhoi gwybod i staff diogelwch i beidio gadael yr unigolion i mewn i unrhyw ran o'r adeilad).

(vi) Dylid cyfarwyddo Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Digidol (neu gynrychiolydd priodol) i dynnu'n ôl, yn ddi-oed, ganiatâd mynediad at systemau cyfrifiadurol y Brifysgol.

(vii) Bydd y Panel yn ystyried a oes angen ymchwilio i systemau ar wahân i'r rhai y rhoddwyd achos i'w hamau, drwy'r hyn y gallai'r un a ddrwgdybir fod wedi cael cyfleoedd i gamddefnyddio'r asedau'r Brifysgol.

**(c) Camau'n dilyn ymchwiliad rhagarweiniol**

(i) Ar ôl derbyn adroddiad rhagarweiniol gan y Swyddog Gwrth-lygredd, bydd y Panel yn penderfynu ar un neu fwy o’r canlynol:-

- Nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.
- Dylid cymryd camau cyn disgyblu.
- Dylid cymryd camau yn erbyn unigolyn/unigolion (yn cynnwys diswyddo) yn unol â threfniadau disgyblu priodol y Brifysgol.
- Dylid rhoi’r holl faterion yn nwylo’r Heddlu, a dwyn achos o drosedd lle bo angen.

**10. Gweithredu**

Daeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 i rym ar 1 Gorffennaf, 2011. Daeth y Polisi diwygiedig hwn i rym ar 22 Medi 2022.

**11. Gwybodaeth Bellach**

Os oes ar unrhyw un angen eglurhad ynghylch unrhyw ddarpariaeth o’r Polisi hwn, dylent gysylltu yn y lle cyntaf â’r Swyddog Gwrthlygredd (Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu) sydd wedi’i leoli yn y Gwasanaethau Llywodraethu.

Os bydd unrhyw un yn dymuno cwyno am unrhyw ddarpariaeth yn y Polisi hwn a/neu ei weithrediad, gallant wneud hynny trwy gysylltu â'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu.

**<u>Atodiad 1</u>**

## SANCSIYNAU

### (A) Atebolrwydd Troseddol

### 1. <u>Unigolion</u>

Y gosb fwyaf i bobl a ddyfernir yn euog dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo yw 10 mlynedd o garchar a / neu ddirwyon personol.

Gellir diarddel unigolion hefyd rhag bod yn gyfarwyddwyr dan Ddeddf Diarddel Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

### 2. <u>Prifysgol</u>

Gellir gosod dirwyon diderfyn ar sefydliadau am fethu ag atal llwgrwobrwyo. Mae'r Swyddfa Twyll Difrifol wedi nodi bod y rhain yn debygol o fod yn symiau sylweddol. Gellir atal sefydliadau hefyd rhag derbyn bidiau am gontractau cyhoeddus.

Gall Uwch Swyddogion a'r Brifysgol fod yn atebol os gellir dangos bod y Brifysgol wedi cyflawni gweithred o lwgrwobrwyo gyda chaniatâd neu gyd-gynllwyn uwch swyddog, neu rywun sy'n cymryd arno i weithredu yn y cyfryw swyddogaeth.

### (B) Atebolrwydd Sifil

Yn ogystal, neu fel dewis arall i'r cosbau troseddol, gellir cymryd camau i adfer elw o drosedd dan Ddeddf Elw Troseddau 2002, Rhan 5.

**Atodiad 2**

## A. Gwledydd yr ymddengys iddynt fod yn risg uchel ar gyfer Llygredd

Bob blwyddyn, mae 'Transparency International' yn cyhoeddi 'Corruptions Perceptions Index' ("CPI") sy'n ddangosydd defnyddiol ar risgiau llygredd mewn unrhyw wlad benodol. https://www.transparency.org/cpi2018

## B. Sectorau yr ymddengys iddynt fod yn risg uchel ar gyfer Llygredd

Mae'r 'Bribe Payers Index' ("BPI") yn rhestru sectorau diwydiannau'n unol ag ystadegau'n amrywio o swyddogion llwgrwobrwyo i fynychder llwgrwobrwyon. Mae'r arolwg diweddaraf ar gael yn https://www.transparency.org/research/bpi/overview

Dyma grynodeb o'r rhestr, gyda'r sectorau glanaf ar y gwaelod a'r troseddwyr gwaethaf ar y brig:-

1. Adeiladu a chontractau gwaith cyhoeddus
2. Cyfleustodau
3. Eiddo tiriog, eiddo, gwasanaethau cyfreithiol a busnes
4. Olew a nwy
5. Mwyngloddio
6. Cynhyrchu a thrawsyrru pŵer
7. Deunyddiau fferyllol a gofal iechyd
8. Gweithgynhyrchu trwm
9. Pysgodfeydd
10. Arfau, amddiffyn a milwrol
11. Trawsgludo a Storio
12. Telathrebu
13. Gwasanaethau Defnyddwyr
14. Coedwigaeth
15. Bancio a chyllid
16. Technoleg Gwybodaeth
17. Awyrofod sifiliaid
18. Gweithgynhyrchu ysgafn
19. Amaethyddiaeth

**Atodiad 3**

## Cymal Gwrth-Lwgrwobrwyo

Mae'r Brifysgol wedi penderfynu mabwysiadu polisi o ymarfer gorau er mwyn sicrhau cyhyd ag sy'n bosibl, bod cymal safonol gwrth-lwgrwobrwyo'r Brifysgol (fel y nodir isod) yn cael ei gynnwys mewn contractau perthnasol (fel contractau ar gyfer gwasanaethau) yn ymwneud â'r Brifysgol a'i his-gwmnïau y mae'n llwyr berchen arnynt.
Dyma'r cymal:-

**1.1 Bydd y [Contractwr]:**

a. **yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, cyfarwyddebau a/neu reoliadau perthnasol sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrthlygredd, gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010, ymhlith eraill;**

b. **yn ymwrthod ag unrhyw weithgaredd, ymarfer neu ymddygiad a fyddai'n drosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010;**

c. **yn cydymffurfio â Pholisi Bangor yn erbyn llwgrwobrwyo neu bolisi cyfatebol (fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd), y mae copi ohono ar gael o'r Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio, gan gynnwys gweithredu 'gweithdrefnau digonol' ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 9 Deddf Llwgrwobrwyo 2010;**

d. **yn adrodd yn syth i Fangor am unrhyw gais neu ofyniad a fyddai, o gydymffurfio ag ef, yn groes naill ai i'r Cytundeb hwn neu i Bolisi Bangor yn erbyn Llwgrwobrwyo;**

e. **yn sicrhau bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag ef sy'n cyflawni gwasanaethau a/neu sy'n darparu nwyddau mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn gwneud hynny trwy gontract ysgrifenedig sy'n gosod ac yn sicrhau telerau lle mae'r person hwnnw yn y cwestiwn sy'n cyfateb i'r rhai a osodir ar y [Contractwr] yn y cymal hwn.**

**1.2 Bernir bod unrhyw achos o dorri'r cymal hwn yn torri'r Cytundeb hwn mewn modd perthnasol, a bydd gan y Brifysgol hawl i'w derfynu ar unwaith.**

Mae canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gael yn:-

http://www.justice.gov.uk/downloads/legislation/bribery-act-2010-guidance.pdf

Mae'r ddogfen gyfarwyddyd yn cynnwys ychydig o astudiaethau achos defnyddiol i ddangos sut bydd y Ddeddf Llwgrwobrwyo'n gweithio'n ymarferol.

Mae arweiniad byr ar gael yn:-

http://www.justice.gov.uk/downloads/legislation/bribery-act-2010-guidance.pdf

Nid yw’r Brifysgol yn gallu rhoi cyngor penodol i bartneriaid ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth.  Cynghorir partneriaid i geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y cymal a’i gysylltiad â'ch contract, cysylltwch â'r Swyddog Contractau yn y Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith yn y lle cyntaf.